OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2001 Rhif 2356 (Cy.194)

# IECHYD PLANHIGION, CYMRU

## Rheoliadau Tatws sy'n Deillio o'r Aifft (Diwygio) (Cymru) 2001

| | |
|---|---|
| *Wedi'u gwneud - -* | *26 Mehefin 2001* |
| *Yn dod i rym - -* | *1 Gorffennaf 2001* |

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru, gan ei fod wedi'i ddynodi(**1**) at ddibenion adran 2(2) o Ddeddf y Cymunedau Ewropeaidd 1972(**2**) mewn perthynas â pholisi amaethyddol cyffredin y Gymuned Ewropeaidd, gan weithredu i arfer y pwerau a roddwyd iddo gan yr adran 2(2) a enwyd, yn gwneud y Rheoliadau canlynol:

**Teitl, cymhwyso a chychwyn**

**1.** Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Tatws sy'n Deillio o'r Aifft (Diwygio)(Cymru) 2001, byddant yn gymwys i Gymru a deuant i rym ar 1 Gorffennaf 2001

**Diwygio Rheoliadau Tatws sy'n Deillio o'r Aifft 1998**

**2.**—(1) Caiff Rheoliadau Tatws sy'n deillio o'r Aifft 1998(**3**) eu diwygio fel y maent yn gymwys i Gymru yn unol â pharagraffau (2) a (3) isod.

(2) Yn rheoliad 2 (dehongli) yn lle'r diffiniad o "the Decision" rhoddir—

""the Decision" means Commission Decision 96/301/EC authorising Member States temporarily to take additional measures against the dissemination of *Pseudomanas solanacearum* (Smith) Smith as regards Egypt(**4**)) as amended by the instruments listed in the Schedule to these Regulations;".

(2) Ar ôl rheoliad 6, mewnosodir yr Atodlen a nodir yn yr Atodlen i'r Rheoliadau hyn.

(**1**) O.S. 1999/2788.
(**2**) 1972. p.68.
(**3**) O.S. 1998/201, fel y'i diwygiwyd gan O.S. 1998/3167 ac O.S. 2000/350 (Cy.8).
(**4**) OJ Rhif L115, 9.5.96, t.47.

Llofnodwyd ar ran Cynulliad Cenedlaethol Cymru o dan adran 66(1) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998(**5**).

*Dafydd Elis Thomas*

26 Mehefin 2001

Llywydd y Cynulliad Cenedlaethol

(**5**) 1998 p.38.

## YR ATODLEN

Rheoliad 2(3)

### Atodlen Newydd i Reoliadau Tatws sy'n Deillio o'r Aifft 1998

"SCHEDULE

Regulation 2

### Instruments amending Commission Decision 96/301/EC

| *Instrument* | *Reference* |
|---|---|
| Commission Decision 98/105/EC | OJ No. L25, 31.1.98, p.101 |
| Commission Decision 98/503/EC | OJ No. L225, 12.8.98, p.34 |
| Commission Decision 99/842/EC | OJ No. L326, 18.12.99, p.68 |
| Commission Decision 2000/568/EC | OJ No. L238, 22.9.00, p.59" |

## EXPLANATORY NOTE

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)*

Mae'r Rheoliadau hyn, sy'n gymwys i Gymru yn unig ac yn dod i rym ar 1 Gorffennaf 2001, yn gweithredu Penderfyniad y Comisiwn 2000/568/EC sy'n diwygio Penderfyniad 96/301/EC sy'n awdurdodi'r Aelod-wladwriaethau, dros dro, i gymryd mesurau brys yn erbyn lledaenu *Pseudomonas solanacearum* (Smith) Smith mewn perthynas â'r Aifft (OJ Rhif L238, 22.9.2000, t.59).

Mae'r Rheoliadau yn diwygio'r diffiniad o "the Decision" yn Rheoliadau Tatws sy'n Deillio o'r Aifft 1998 (rheoliad 2(2)). Mae Penderfyniad y Comisiwn 2000/568/EC yn adnewyddu'r fframwaith y gellir mewnforio tatws o'r Aifft i diriogaeth y Gymuned Ewropeaidd o'i fewn.

Nid oes arfarniad rheoliadol wedi'i baratoi mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn.